# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-06-08)

**Dyddiad: 16 Ebrill 2008**
**Amser: 9.00am - 10.51am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Lynne Neagle, Tor-faen

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Chris Reading, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Brian Gibbons, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Anna Slatter, Arweinydd Polisi, Afiechydon Difrifol
Jocelyn Davies, Y Dirprwy Weinidog dros Dai
Paul Webb, Pennaeth yr Uned Strategaeth a Gwasanaethau Tai
Kim Brook, Cadeirydd, Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
Liza Kellet, Prif Weithredwr, Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd. 1.2 Nodwyd bod ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth Nerys Evans a Joyce Watson. Cydymdeimlodd y cadeirydd, ar ran y pwyllgor, â Joyce Watson yn ei phrofedigaeth. 1.3 Cytunodd y pwyllgor y dylid cynnal dau gyfarfod y tu allan i Gaerdydd y tymor hwn.

### 2: Ymchwiliad i gam-drin domestig - tystiolaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

### Papur: CC(3)-06-08(p.1)

2.1 Bu'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i roi nodyn i'r pwyllgor ar fentrau CAFCASS Cymru; y pecynnau cymorth ar gam-drin domestig, y pecyn asesu gwrthdaro rhwng rhieni, a datblygu protocol datgeliad.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i egluro'r arweiniad i ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd gwladol a'r byrddau iechyd lleol ar briodasau dan orfod, trais sy'n seiliedig ar 'anrhydedd', a llurgunio organau rhywiol merched.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i roi mwy o wybodaeth i'r pwyllgor ar y llwybr ymholiad rheolaidd cynenedigol a llwybr ymholiad rheolaidd adrannau damweiniau ac achosion brys (peilot).

### 3: Ymchwiliad i ariannu sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru - tystiolaeth gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

### Papur: CC(3)-05-08 (p.2)

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.